

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Argymhelliad 1. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl mwy o gynnydd yn y dyfodol o ran disgrifio sut mae'r ymrwymadau'n cael eu blaenoriaethu ac yn cyfrannu at ddryaniadau'r gyllideb ac at ganlyniadau. [tudalen 19]

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn ategu'r argymhelliad a wnaeth mewn perthynas â Chyllideb ddrafft 2017-18 y dylai'r Llywodraeth ddangos bod gwell aliniad rhwng ei chyllidebau drafft, y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio. Dylai cyllidebau drafft y dyfodol hefyd ddangos sut y mae dyraniad y Llywodraeth o arian yn bodloni'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ei strategaeth genedlaethol, sef Ffyniant i Bawb ar hyn o bryd. [tudalen 55]

Ymateb: Cytuno o ran egwyddor

Wrth ddatblygu Cyllideb ddrafft 2018-19 fe wnaethom weithio ar draws y llywodraeth i adolygu aliniad ein cynlluniau gwariant â chynllun Ffyniant i Bawb a manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i gysylltu gweithgarwch ar draws portffolios a rhaglenni er mwyn cyflawni ein hamcanion llesiant ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y broses o lunio'r gyllideb.

Pan gyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid rhoddodd amlinelliad o'r dyraniadau cyllid penodol sy'n cyd-fynd â Ffyniant i Bawb a'r pum maes blaenoriaeth. Mae manylion pellach sut y mae cynlluniau gwariant y Llywodraeth yn alinio â Ffyniant i Bawb ac yn cefnogi'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru ym mhennod pedwar naratif amlinellol y Gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd ar 3 Hydref ac yng nghynigion manwl y cyllidebau adrannol a gyhoeddwyd ar 24 Hydref.

Rydym eisoes wedi cydnabod y byddai ymgorffori egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth inni gynllunio ein cyllideb yn broses arloesol a fyddai'n datblygu dros nifer o flynyddoedd. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y camau a gymerwyd gennym eisoes eleni i gryfhau ein paratodau ar gyfer y gyllideb ac i sicrhau bod effaith y Ddeddf yn cynyddu. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y tri maes penodol y cytunwyd arnynt gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu fel rhan o broses y Gyllideb. Wrth ddatblygu dogfennaeth y Gyllideb eleni, roedd y prif ffocws ar ddarparu deunydd a fyddai'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau ariannol newydd, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad gan Brif Economegydd Cymru, am y tro cyntaf, ar gyllid cyhoeddus yn y dyfodol a'n rhagolygon economaidd, yn ogystal ag adroddiad annibynnol gan Brifysgol Bangor ar ragolygon refeniw treth Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull cyllidebu ac yn myfyrio ymhellach ar argymhellion y Pwyllgor wrth ddatblygu cyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn parhau i anelu at gyhoeddi ei Chyllideb ddrafft cyn cyhoeddi Cyllideb y DU yn hydref 2018. [tudalen 19]

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Arfer Gorau Rhan 2 Proses y Gyllideb, mae heriau'n gysylltiedig â chynllunio'r gyllideb er mwyn caniatáu ar gyfer cyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth y DU, darparu amser digonol ar gyfer craffu a'r gallu i roi sicrwydd cynnar i'n partneriaid cyflenwi, heriau sy'n cael eu dwysáu gan fwriad Llywodraeth y DU i newid y trefniadau a chynnal digwyddiad cyllidol unigol yn yr hydref.

Rydym wedi nodi bwriad y Pwyllgor i adolygu sut y mae proses y gyllideb wedi gweithio eleni. Wrth gydnabod bod y Pwyllgor yn ffafrio'r trefniadau presennol at ei gilydd, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gadw golwg ar y prosesau sydd gennym wrth i'n cyfrifoldebau ariannol ddatblygu.

Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn argymhell pan fo'r Llywodraeth yn darparu Cyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf y dylid darparu ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol sy'n dilyn (lle bo cyllidebau'r DU yn caniatáu hynny) [tudalen 19]

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb ddrafft 2017-2018, ein nod bob amser yw darparu cyllidebau am gyfnodau hwy pan fydd hynny'n bosibl.

Rydym wedi gwrandao'n ofalus iawn ar y ceisiadau gan ein partneriaid cyflenwi ynglŷn â phwysigrwydd gallu cynllunio y tu hwnt i gyfnod 12 mis. Er gwaethaf yr ansicrwydd gwirioneddol yr oeddem yn ei wynebu, a'r cefndir o doriadau pellach sydd i ddod, fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a chynlluniau cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf ac rydym wedi dod i gytundeb ar y rhain.

Argymhelliad 4 - Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach y ddarpariaeth o ddata penodol i Gymru i lywio'r gwaith o greu rhagolygon, modelu a datblygu polisi treth. [tudalen 32]

Ymateb: Derbyn

Rydym bob amser yn ceisio gwella'r dystiolaeth ar gyfer datblygu ein polisi treth. I gefnogi'r amcan hwn mae swyddogion yn gweithio yn awr gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau bod yr wybodaeth fwyaf manwl ac amserol ar gael inni am y sefyllfa dreth yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Pan fydd Awdurdod Cyllid Cymru wedi dechrau casglu'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, bydd hefyd yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am y sefyllfa dreth bresennol yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod na fydd un set unigol o ddata, neu fodel unigol, yn briodol ar gyfer pob diben, a gwyddom y bydd angen i'r dystiolaeth a ddefnyddir i asesu opsiynau polisi a'r dystiolaeth honno sy'n sail i'n penderfyniadau fod yn benodol i'r trethi a'r newidiadau sy'n cael eu hystyried.

Dadleuir weithiau y dylai penderfyniadau ar drethiant a pholisïau cyllid fod yn seiliedig ar allbynnau model macroeconomaidd manwl o economi Cymru. Fodd bynnag, byddai datblygu model o'r fath, ar y gorau, yn orchwyl hirdymor. Mae'n rhaid inni hefyd ystyried yn ofalus y graddau y mae economi Cymru yn integreiddio gydag economi gweddill y DU a'i bod felly'n ymarferol modelu'r economi yng Nghymru yn annibynnol ar broses fodelu'r DU yn gyffredinol.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn parhau i ddefnyddio'r ffynonellau cyllid mwyaf darbodus sydd ar gael iddi. [tudalen 35]

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, lle nad yw cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau seilwaith yn cael eu defnyddio ar gyfer y prosiectau hyn, y dylai'r Llywodraeth anelu at ddefnyddio'r arian ar gyfer prosiectau seilwaith eraill yn unol â'r blaenoriaethau strategol a gyhoeddwyd ganddi. [tudalen 39]

Ymateb: Derbyn

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yr hierarchaeth ar gyfer y cyllid gwariant cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae manylion pellach ar gael ym mhennod 3 naratif amlinellol y Gyllideb ddrafft ac egwyddor drosfwaol hyn yw y byddwn bob amser yn defnyddio'r ffurfiau lleiaf costus o gyfalaf cyn symud ymlaen i ffynonellau eraill.

Byddwn yn ceisio gwneud y gorau o'r cyfalaf sydd ar gael i'w wario er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi.

Argymhelliad 8 - Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai asesiad effaith integredig strategol a ddarperir ochr yn ochr â chyllidebau drafft y dyfodol esbonio'n glir sut y gwnaed y penderfyniadau. [tudalen 55]

Ymateb: Derbyn o ran egwyddor

Yn unol ag egwyddorion y gyllideb dau gam newydd, roedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd ar 3 Hydref yn canolbwyntio ar y penderfyniadau lefel uchel a wnaed ar wariant a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ddrafft amlinellol, gydag effeithiau'r penderfyniadau a gymerwyd ar lefel adrannol yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r Gyllideb ddrafft fanwl ar 23 Hydref.

Roedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi'r camau nesaf yr ydym yn eu cymryd i wella'r asesiadau o effaith datblygiadau polisi a thrwy broses y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys prosiect yn 2018 i gyflwyno fframwaith newydd ar gyfer asesu effaith yn Llywodraeth Cymru. Ymhlith amcanion y fframwaith mae pennu dibenion cliriach a mwy pendant ar gyfer asesu effaith ar draws yr amrediad o ymyriadau'r llywodraeth; lleihau cymhlethdodau a defnyddio asesiadau o effaith ar gyfer

ymyriadau mewn ffordd gymesur. Bydd ein dull yn canolbwyntio ar ansawdd dealltwriaeth, tystiolaeth a barn; ac integreiddio'r broses asesu effaith gyda chyfarwyddyd sylweddol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd y prosiect yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad i'r gweithlu er mwyn iddynt allu asesu'r effaith yn fwy effeithiol.

Wrth edrych ymlaen at y gyllideb nesaf, rydym wedi ailgynnull Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ac wedi cytuno ar raglen waith. Yn ogystal â'r trafodaethau a gafwyd gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gynnwys a ffocws yr Asesiad Effaith Strategol, bydd cyngor Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn helpu i lywio ein syniadau ac yn atgyfnerthu'r disgrifiad o effeithiau yn y ddogfennaeth gyhoeddedig ar y gyllideb. Bydd hyn yn parhau i gefnogi proses ystyrlon o graffu ar ein cynlluniau a'n hasesiadau effaith.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried yr awgrym y dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gael rôl yn asesu effaith cyllideb y Llywodraeth ar gefnogi'r nodau llesiant, yn y tymor byr ac yn y tymor hir. [tudalen 55]

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull o gyllidebu, er mwyn ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu cyflawni heb i hynny gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Byddwn yn ystyried ffyrdd a fydd yn ein galluogi i adeiladu ar y mesurau a gymerwyd gennym eleni i atgyfnerthu proses y gyllideb a bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn trefnu cyfarfod cynnar gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y camau nesaf.